Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant
Ffordd Cefn yr Hendy, Meisgyn, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf. CF72 8TL
01443 237837 admin@ygggllantrisant.rctcbc.cymru
www.yggglantrisant.com

Pennaeth *Head Teacher* **Mr R O'Neil**

06.01.26

Rhybudd Tywydd

Annwyl Rieni / Warcheidwaid,

Mae'r Swyddfa Dywydd wedi cyhoeddi rhybudd melyn newydd am eira rhwng 18:00 dydd Iau a 12:00 ddydd Gwener. Mae'n dod yn sgîl storm sydd wedi'i enwi'n Goretti gan swyddfa dywydd Ffrainc. Mae'r rhybudd yn effeithio ar bob sir yng Nghymru heblaw Ynys Môn a Sir Benfro, gyda disgwyl y gallai 5-10 cm o eira ddisgyn mewn sawl ardal a hyd at 20 cm dros dir uchel.

Y gobaith yw, na fydd hyn yn effeithio ar ardal Meisgyn ond, gyda nifer o staff yn byw yn bellach i ffwrdd, efallai y byddwn yn wynebu sefyllfa staffio heriol. Felly, hoffem ragrybuddio pawb rhag ofn i ni wynebu'r penderfyniad anodd o orfod cau'r ysgol yn llawn neu'n rannol.

Yn unol â threfniadau a pholisiau'r Awdurdod Lleol a'r ysgol, gwneir asesiad risg o'r safle mor gynnar ag y bo modd ar fore unrhyw achos o dywydd gwael cyn gwneud unrhyw benderfyniad ynghylch cau'r ysgol. Felly, gofynnir yn garedig i chi gadw llygad barcud am negeseuon ar ap yr ysgol.

Bydd y staff yn darparu tasgau dysgu o bell i'r plant o Ddosbarth 2 i 8 os bydd rhaid cau'r ysgol. Bydd disgyblion Dosbarth 2 a 3 yn cael dod o hyd i'w tasgau nhw ar J2E a bydd tasgau disgyblion Dosbarthiadau 4 i 8 ar Google Classroom.

Diolch yn fawr i chi am eich dealltwriaeth a'ch cydweithrediad fel arfer – gan obeithio na fydd storm Goretti yn effeithio arnom!

Yn gywir,



Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant
Ffordd Cefn yr Hendy, Meisgyn, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf. CF72 8TL
01443 237837 admin@ygggllantrisant.rctcbc.cymru
www.yggglantrisant.com

Pennaeth *Head Teacher* **Mr R O'Neil**

06.01.26

Weather Warning

Dear Parents / Guardians,

The first named storm of the year is part of a new Met Office yellow weather warning for significant snowfall, which runs from 18:00 Thursday until 12:00 GMT on Friday. It is reported that, in some areas, 5-10 cm of snow may settle - with the potential for up to 20 cm in some locations.

It is hoped that this storm will not affect the Miskin area but, with a number of staff living further away, we may face a challenging staffing situation. Therefore, we would like to forewarn everyone in case we are faced with the difficult decision of having to close, or partially close, the school.

In accordance with the arrangements and policies of the Local Authority and the school, a risk assessment of the site is carried out as early as possible on the morning of any case of bad weather before any decision to close the school is made. Therefore, you are kindly asked to keep a close eye on the school's app for messages, please.

The staff will provide remote learning tasks for the children in Classes 2 to 8 if the school has to be closed. Class 2 and 3 pupils will find their tasks on J2E with pupils in Classes 4 to 8 accessing their tasks on Google Classroom.

Thank you very much for your understanding and cooperation as usual - hoping that Storm Goretti will not affect us!

Regards,

